| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **5ed MAWRTH 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CALENDR PWYLLGORAU 2015/16** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO CALENDR PWYLLGORAU 2015/16** |
| **AWDUR** | **GERAINT GEORGE**<br>**PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn ystod y broses o lunio Calendr Pwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2015/16, rhoddwyd gwahoddiad i aelodau etholedig drwy *Rhaeadr* i ddatgan eu barn am amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

1.2 Bwriad hyn oedd ceisio sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cyfle i bawb i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, gan felly wneud pob ymdrech i sicrhau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd rhesymol er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais yn *Rhaeadr*.

1.3 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft o Galendr Pwyllgorau 2015/16 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

1.4 Bu ymgynghori hefyd gyda Grŵp Busnes y Cyngor, ond nid oedd ganddynt hwy sylwadau ar y fersiwn drafft o Galendr Pwyllgorau 2015/16.

## 2. CALENDR PWYLLGORAU 2015/16

2.1 Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2015/16.

2.2 Mae'r cyfarfodydd wedi eu rhaglennu ar yr un sail â llynedd, sef 2014/15.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2015/16.